

SESIWN 6: HAWL I IECHYD DA – EIN CLWB IECHYD YSGOL

Oedran: 8–11 oed Amser: 1 awr

Amlinelliad Bydd y dysgwyr yn ystyried pa arferion hylendid da yn Sierra Leone y gellid hefyd eu defnyddio yn eu hysgol nhw (golchi eu dwylo'n ofalus, er enghraifft). Yna, byddant yn sefydlu clwb iechyd ysgol – go iawn neu ddychmygol – i hybu'r negeseuon hyn mewn ffordd a fydd yn perswadio eraill yng nghymuned yr ysgol i'w mabwysiadu.	
Amcanion dysgu <ul style="list-style-type: none">• Cymhwyso'u gwybodaeth am lanweithdra, dŵr ac arferion hylendid da i'w hamgylchedd ysgol eu hunain.• Cyflwyno neges sy'n perswadio, un ai ar ffurf lafar neu ysgrifenedig, i gynulleidfa ehangach.	Canlyniadau dysgu <ul style="list-style-type: none">• Bydd y dysgwyr yn llunio negeseuon am hylendid da i'w hysgol eu hunain.• Bydd y dysgwyr yn cyflwyno'r negeseuon hyn mewn ffordd sy'n perswadio i weddill cymuned yr ysgol, un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
Cwestiynau allweddol <ul style="list-style-type: none">• Beth yw pwrpas ein clwb iechyd?• Pam rydyn ni'n meddwl bod hylendid da yn bwysig?• Oes yna unrhyw arferion hylendid da sy'n arbennig o bwysig? Pam?• Oes yna unrhyw arferion hylendid da nad ydy'r ysgol yn eu dilyn yn dda iawn? Beth allwn ni ei wneud am hyn?• Sut fyddwn ni'n cyflwyno ein neges mewn ffordd sy'n perswadio?	Adnoddau <ul style="list-style-type: none">• <i>Sioe Sleidiau Hawliau Plant</i>: sleidiau 37–42• Darnau mawr o bapur (un i bob grŵp o bedwar dysgwr)• Nodiadau 'Post-it'• Offer gwneud poster
Cysylltiadau â'r cwricwlwm	
Cymru Llafaredd Sgiliau: Cyfathrebu'n glir ac yn hyderus, mynegi barn, addasu'r siarad yn ôl cynulleidfa a phwrpas, gan ddefnyddio ystumiau, tŷn a chywair er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawr. Ysgrifennu Ystod: Ysgrifennu at amrywiol ddibenion. Ysgrifennu mewn amrywiol ffurfiau. Ysgrifennu mewn ymateb i ystod eang o ysgogiadau: gweledol, clywedol ac ysgrifenedig.	

Amlinelliad o'r gweithgaredd

Cyflwyniad (5 mun)

Y Clwb Iechyd

- Atgoffwch y dysgwyr o'u rolau yn Sesiwn 5 fel aelodau o glwb iechyd yr ysgol. Gofynnwch iddynt pam maen nhw'n meddwl bod hylendid da yn bwysig yn eu hysgol nhw yn ogystal ag yn Sierra Leone. Awgrymwch eu bod yn ffurfio eu fersiwn eu hunain o glwb iechyd ysgol i hybu negeseuon am hylendid da.
- Rhowch ychydig funudau i'r dysgwyr i feddwl am enw ar gyfer eu clwb iechyd ysgol nhw.

Gweithgaredd 6.1 (15 mun)

Negeseuon am hylendid da

- Atgoffwch y dysgwyr fod yn rhaid i'r cymunedau y buon nhw'n dysgu amdanynt yn Sierra Leone fabwysiadu arferion da gyda dŵr a glanweithdra er mwyn atal lledaeniad afiechydon fel colera ac Ebola. Efallai y bydd angen i chi atgoffa'r dysgwyr fod glanweithdra da yn golygu sicrhau cyfleusterau i gael gwared ar wastraff yn ddiogel, yn arbennig gwastraff o doiledau, ac annog arferion fel golchi dwylo. Bydd angen eu hatgoffa hefyd, efallai, mai haint sy'n cael ei achosi gan facteria o ganlyniad i yfed dŵr budr neu ddŵr sydd wedi'i heintio yw colera. Mae'n heintus a gall arwain at ddiffyg hylif mewn claf, neu at ei farwolaeth.
- Eglurwch, er nad yw colera i'w gael yn y Deyrnas Unedig, fod arferion hylendid da yn atal afiechydon eraill, fel annwyd, y ffliw a salwch stumog rhag lledaenu mor rhydd.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar a rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp, yn ogystal â nodiadau 'Post-it'. Dangoswch sleid 39 ac yna gofynnwch i'r grwpiau drafod a nodi pa arferion hylendid da ddylid eu mabwysiadu wrth ddefnyddio'r toiled.
- Gofynnwch i bob grŵp rannu eu syniadau gyda gweddill y dosbarth. Gallent gynnwys y canlynol:
 - Defnyddio'r toiled yn ofalus er mwyn osgoi gwlychu'r llawr.
 - Rhoi papur toiled sydd wedi'i ddefnyddio yn y toiled a chofio fflysio.
 - Golchi'r dwylo'n drylwyr ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta.
 - Gofalu bod digon o sebon ar gael a chofio defnyddio sebon.
 - Gwneud yn siŵr fod digon o dywelion neu lieiniau ar gael i sychu'r dwylo ar ôl eu golchi.
 - Taflu tywelion papur sydd wedi'u defnyddio yn y bin.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y canlynol, fel dosbarth:
 - Oes yna unrhyw arferion hylendid da sy'n arbennig o bwysig? Pam?

- Oes yna unrhyw arferion hylendid da nad ydy'r ysgol yn eu dilyn yn dda iawn? Beth allwn ni ei wneud am hyn?
- Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr a oes yna unrhyw negeseuon eraill am ddŵr neu lanweithdra pwysig eraill y dylai aelodau eu cymunedau ysgol wybod amdany'n nhw. Er enghraifft, gellid atgoffa'r plant i olchi eu poteli dŵr a'u hail-lenwi bob dydd.

Gwahaniaethu

Haws: Gweithiwch gyda grŵp i arwain eu meddyliau gan ddefnyddio cwestiynau allweddol pellach, megis: *Beth ddylech chi gofio'i wneud ar ôl i chi ddefnyddio'r toiled?*

Gweithgaredd 6.2 (30 mun)

Gweithredu

- Dangoswch y ddau glip fideo am olchi dwylo yn Sierra Leone (dilynwch y dolenni ar sleidiau 40 a 41). Mae'r cyntaf yn dangos gweithiwr iechyd yn canu cân am hylendid gyda phlant ifanc. Mae'r ail yn dangos sut i olchi'r dwylo'n effeithiol. Gallech gyfeirio at y ffaith fod y dull hwn o olchi dwylo yn arbennig o bwysig yn ystod yr argyfwng Ebola yn 2014–15.
- Dangoswch sleid 42. Gofynnwch i'r dysgwyr, yn eu grwpiau, ganolbwyntio ar un o'r negeseuon hylendid da a drafodwyd gan y dosbarth yn 6.2. Gofynnwch i'r dysgwyr sut allen nhw gyfleu'r neges hon i eraill yn eu cymuned ysgol. Dyma rai awgrymiadau am syniadau:
 - Llunio poster i'w arddangos yn y toiledau neu yn yr ystafelloedd dosbarth.
 - Arddangos sut i olchi'r dwylo'n gywir i ddosbarthiadau eraill neu mewn gwasanaeth ysgol.
 - Llunio enghraifft fer o chwarae rôl i'w pherfformio i ddosbarthiadau eraill neu mewn gwasanaeth ysgol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr sut fyddan nhw'n cyflwyno'u neges mewn ffordd sy'n perswadio. Anogwch nhw i gyfeirio at iaith sy'n perswadio ac iaith emosiynol o 'fanc geiriau' y dosbarth.
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio yn eu grwpiau i lunio cyflwyniad o'u neges am hylendid da.

Sesiwn llawn (10 mun)

- Caniatewch ddigon o amser i bob grŵp rannu ei neges â gweddill y dosbarth. Rhowch gyfle i'r dysgwyr i gynnig sylwadau ar waith ei gilydd, yn arbennig ar negeseuon sydd, yn eu barn nhw, wedi'u cyflwyno mewn ffordd sy'n perswadio'n arbennig o effeithiol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr nodi pa un o hawliau plant mae eu negeseuon yn ei gefnogi (*yr hawl i iechyd da, Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*).

Trafodwch pwy sydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr hawl hon yn cael ei diwallu yn eu hysgol nhw (*rhennir y cyfrifoldeb rhwng y dysgwyr, yr athrawon ac oedolion eraill sy'n gweithio yn yr ysgol, y glanhawyr, yr awdurdod lleol a llywodraeth y Deyrnas Unedig*).

- Os yw'n bosib, rhowch gyfle i'r dysgwyr rannu eu negeson â'r gymuned ysgol ehangach.

Syniadau pellach

- Chwiliwch am ragor o wybodaeth am y modd y bu i gyfleusterau dŵr a glanweithdra gwael yn Sierra Leone – canlyniad blynyddoedd lawer o ryfel cartref a diffyg cyllid cyson gan y llywodraeth tuag at yr isadeiledd – arwain at ledaeniad cyflym ac eang Ebola yn 2014 drwy ddefnyddio adnodd Oxfam, 'Ebola: Behind the headlines':
www.oxfam.org.uk/education/resources/ebola
- Dysgwch ragor am waith Oxfam gyda Hyrwyddo Dŵr, Glanweithdra a Hylendid:
www.policy-practice.oxfam.org.uk/our-work/water-health-education/wash.
- Awgrymwch fod y dysgwyr yn defnyddio'u sgiliau perswadio i ysgrifennu llythyr at yr Aelod Cynulliad, yr Aelod Seneddol neu'r Aelod Seneddol Ewropeaidd, yn gofyn iddynt gefnogi rhoi cyllid ar gyfer projectau Hyrwyddo Dŵr, Glanweithdra a Hylendid.
- Cymryd rhan yn Wythnos Ddŵr Oxfam www.oxfam.org.uk/education/resources/water-week

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.